









Y LLINYN ARIAN

Cylchgrawn Capel Salem, Caernarfon

Mawrth / EBRILL. Pasg 2023.

YR WYTHNOS SANCTAIDD

Dydd Sul y Blodau Yr ymdaith i fewn i Jerwsalem Marc 11: 1-11	HOSANNA! HOSANNA! HOSANNA! 
Dydd Llun Glanhau'r Deml Marc 11:15-19	TY GWEDDI OGOF LLADRON 
Dydd Mawrth Iesu'n dysgu Marc 11:20-13:37	CÂR YR ARLGWYDD DY DDUW CÂR DY GYMYDOG 
Dydd Mercher Gorffwys ym Methania Jwdas yn Bradychu Marc 14:3-11	"GWNAETH WEITHRED BRYDFERTH I MI" 
Dydd Iau Cablyd Y Swper Olaf Bradychu yn yr Ardd Marc 14:12-26, 43-50	HWN YW FY NGHORFF HWN YW FY NGWAED 
Dydd Gwener Iesu gerbron Pilat Y Croeshoeliad a'r claddu Marc 15:21 -41	"YN WIR, MAB DUW OEDD Y DYN HWN" 
Dydd Sadwrn Iesu yn y Bedd Marc 15:42-47	
Dydd Sul y Pasg Yr Atgyfodiad Marc 16	"NID YW YMA - MAE WEDI EI GYFODI" 

OEDFAON Y PASG Yn y Capel ac ar Zoom

Bore Sul y Blodau (2 Ebrill) Oedfa'r bore yn salem am 10

Nos Iau Cablyd am 7 o'r gloch : Eglwys Santes Fair - Cymun

Bore Gwener Groglith am 10 o'r goch yn Salem —Oedfa Gymun .

Yn dilyn yr oedfa Gorymdaith i'r Maes.

Nos Wener y Groglith yn Salem am 7 : 'I Galfaria trof fy wyneb '

Bore Sul y Pasg am 10 : Cymun y Pasg .

Gair gan y Gweinidog. Pasg 2023

Credaf ein bod yn ffodus yn y rhan yma o'r byd bod Gwyl y Pasg yn cyd-fynd â Thymor y Gwanwyn. Bydd cyfnod y Grawys yn cychwyn yn ystod wythnosau olaf y Gaeaf fel arfer a'n taith drwy'r Grawys yn cyd-fynd â thaith y tymhorau o'r Gaeaf i'r Gwanwyn. Beth fyddwch chi'n ei fwynhau fwyaf am ddyfodiad y Gwanwyn? Gweld y dydd yn 'mestyn? Clywed swm yr adar wrth iddynt fod wrthi'n brysur yn nythu a magu cywion? Neu ddechrau teimlo gwres yr haul ar eich wyneb unwaith eto. Er, rhaid dweud fod gweld yr eira Fis Mawrth eleni yn dipyn o sioc!



Â ninnau'n agosau at yr Ŵyl bwysicaf i ni; Y Pasg, mae gweld cyffro natur yn deffro a bywyd newydd o'n cwmpas yn ein hatgoffa o gynnwrf a gobaith yr atgyfodiad. Wedi wythnos ddwys o wewyr a dioddefaint, roedd y disgyblion a dilynwyd Iesu yn llawn trallod wedi Dydd Gwener y Groglith. Er i Iesu addo y byddai'n dod yn ôl atynt, roedd eu calonnau mor drwm nes yr oeddent wedi anobeithio yn llwyr. Hyd yn oed ar fore'r Pasg pan ddaeth y neges fod Iesu wedi atgyfodi, doedd y disgyblion ddim yn siwr a allent gredu ar y cychwyn. Ond, credu wnaethant wrth iddynt sylweddoli fod geiriau Iesu; 'Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd' yn wir. Roedd eu tywyllwch wedi troi'n oleuni, roedd eu heneidiau yn canu ac roedd eu calonnau yn llawn cynhesrwydd y gobaith newydd yng Nghrist. Dyma mae Iesu yn ei addo i ni heddiw; goleuni i oleuo pob tywyllwch yn ein bywydau, llawenydd dwfn sy'n peri i'n heneidiau ganu a gorfoleddu a cynhesrwydd ei gariad a'i bresenoldeb yn ein calonnau bob amser. Pasg Hapus i chi gyd.

Gweddi: Dduw cariadlon, molwn di unwaith eto am Newyddion Da y Pasg,

A neges fuddugoliaethus yr atgyfodiad –

Gobaith newydd, llawenydd newydd, bywyd newydd!

Mae Crist wedi ei atgyfodi – mae wedi ei atgyfodi yn wir.

Nick Fawcett cyf Denzil John



. HUNODD

Ar ddydd Gŵyl Sant Steffan (26 Rhagfyr) bu farw **Dilwyn Hughes**, ‘**Brentwood**’, **Ffordd Bangor**. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghrematoriwm Bangor dydd Gwener 13 Ionawr, 2023. Gan fod y profedigaeth wedi digwydd yn nhymor y Nadolig, myfyriwyd ar hanes geni Iesu Grist. Cysylltwyd y geiriau: **ADDYSG** gyda'r Gŵyr Doeth, **DAWNSIO** gyda'r Bugeiliaid, **DIDWYLL A DIYMHONGAR** gyda Mair, Joseff a Simeon ac **ADDOLI** gyda'r rhai ddymuna hynny.

Pan feddyliwn am y geiriau medrwn eu cysylltu gyda Dilwyn.

ADDYSG-dyna'i yrfa a bu nifer o bobl ifanc oedd yn ddisgyblion iddo yn ddyledus iddo am ei ofal a'i arweiniaid.

Pan ddeuai ymwelwyr nad oedd yn deall Cymraeg na Saesneg i Salem, o bryd i'w gilydd, byddai Dilwyn bob amser wrth law yn barod i gyfieithu a'u cynorthwyo.

DAWNSIO – Roedd wrth ei fodd yn dawnsio a doedd dim dawnsiwr tebyg i Ddawnsiwr Môn! Ac nid dawnsiwr talentog yn unig oedd Dilwyn, ‘roedd yn deall y grefft gan iddo feirniadu yn yr Wyl ban Geltaidd.

DIYMHONGAR a DIDWYLL. Yn yr oedfa darllenwyd adnodau o'r Bregeth ar y Mynydd; y Gwynfydau: ‘Gwyn eu byd y rhai addfwyn’, ‘Gwyn eu byd y tangefeddwy’, ‘Gwyn eu byd y rhai trugarog’, ‘Gwyn eu byd y tangefeddwy’ a ‘Gwyn eu byd y rhai addfwyn’. Roedd y rhain i gyd yn crynhoi ei gymeriad.

ADDOLI - Addoli Cristnogol yw ymateb i Iesu'r Mab a pherthyn i'r eglwys a sefydlwyd ganddo. Testun diolch sydd gennym yn Salem am bwyslais Dilwyn ar addoli. Bu'n ddiakon, Ymddiriedolwr, Athro Y Sul ac 'roedd bob amser yn barod i roi o'i ddawn a'i dalent i gefnogi'r gwaith. Os medr Dilwyn helpu buasau'n gwneud efo gwen direudus ar ei wyneb. Coffa da amdano. Cydymdeimlwn â'i briod Manon, Ioan ei fab, Iola ei chwaer a John a holl aelodau'r teulu.

Meddyliwn am y rhai sydd wedi **COLLI PERTHNASAU AGOS**

Mr Leslie a Mrs Glenys Jones, 19 Rhes Hafod ym marwolaeth chwaer i Glenys.

Meddyliwn am eraill yn yr eglwys sydd wedi colli ffrindiau agos a pherthnasau.

Meddyliwn am deulu y diweddar Barchedig Gwynfor a Katie Williams y ddau'n marw yn agos iawm i'w gilydd. Bu Gwynfor yn weinidog yn Ebeneser, Caernarfon ac yn gofalu am gapel Pentref, Caernarfon. Ardaloedd eraill bu'n gweinidogaethu oedd Llanddaniel a Berea, Gaerwen, Jerwsalem, Llanberis, Y Tabernacl, Cwm-y-glo, Bethel, Arfon, Seion, Llanddeiniolen a Saron, Bethel a Bethmaca. Bu ei briod yn gefn mawr iddo ac i'r Eglwys

Dwg yn nes, drwy ing a phryder,

deulu poen,

addfwyn Oen,

at dy fynwes dirion (C FF 823)

Meddyliwn hefyd am y rhai fu yn yr **YSBYTY**.

Mrs Margaret Hamilton

Miss Bethan Parry,

Mrs Nancy O Griffiths

Mrs Maureen Phillips.

Mr Ronald Williams .

Mr Derwyn Roberts

Cyflwynwn ein cyfarchion cynhesaf i'r rhai sy'n gaeth i'w cartref, yn derbyn gofal arbennig a triniaeth yn yr ysbyty

LLONGYFARCHIADAU

Mr Alun a Mrs Haf Jones, Gwyddfán, 22 Llys Meirion ar ddathlu eu priodas Aur .

Mr Keith a Mrs Gwen Williams, 4 Ffordd Fictoria ar ddathlu eu priodas arian.

Mr Hugh a Catrin Prys Jones Bryn Neuadd, Llanfaglan ar ddod yn Daid a Nain unwaith eto i Cai, mab Tomos a Dana ac i Anna merch Elen a Michael
Mr Twm a Mrs Ann Jones Roberts, Fferm Tyddyn Hen ar ddod yn Daid a Nain am y tro cyntaf; merch fach Olivia i' Seren a Ben

Danfonwn ein cyfarchion cynhesaf i'r rhai mewn **CARTEF PRESWYL**

Cartref Marbryn Caernarfon : Mr Gareth Lee.

Cartref Plas Maesinle: Mrs Carys Medi Hill,


Cartref Gwynfa, Caernarfon (dros dro) : Miss Nerys Jackson

Cartef Golwg y Wyddfa, Llanberis : Mrs Gweneirys Jones.

Cyflwynwd cyfarchion penblwydd arbennig i Mrs Jones oedd yn 99oed dechrau mis Chwefror. Gwerthfawrogodd pob cyfarchion a blodau'r Sul oedd yn y chapel. Rhoddwyd y blodau y Sul hwnnw gan Rhian Mair a'i dymuniad oedd i roi'r blodau i unrhyw un a ddymunem. Fel hyn gwnaeth Rhian Mair ymateb i'r digwyddiad : “ *Tra'n eistedd yn y car yn aros i gychwyn ffilmio cefais andros o sioc pan ffoniodd un o genod cartre gofal lleol i ddweud bod na ledi isie diolch am ei blode.. Wel, ro ni wedi gwirioni gyda'r alwad ffôn ac yn rhyfeddu pa mor huawdl oedd Gweneirys o gofio ei bod yn 99 mlwydd oed. Wedi iddi ddiolch yn garedig iawn, buom yn trafod blodau stalwm sydd nol yn ffasiwn nawr a pa mor hyfryd ydi arogl hyacinths! Wedi ffarwelio a diffodd yr alwad bum yn eistedd yn y car gyda gwen wirion ar fy ngwyneb a barodd y wên honno drwy'r pnawn! Diolch Gweneirys.*

PENBLWYDD CAPEL SALEM . 1862—2022

Fel arfer dathlwn benblwydd yr achos ar yr ail Sul yn mis Mai sef 14eg eleni. Dathlwn drwy gynnal ein Gŵyl Bregethu .Gwahoddir Gweinidogion o bell ac agos i arwain ein haddoliad.



Eleni edrychwn ymlaen i groesawu'r Parch Carwyn Siddalll sy'n weinidog ar Hen Gapel, Llanuwchllyn, Eglwys Fedyddiedig Aion, Llanuwchllyn, Eglwys Fethodistaidd Rhydygwalia a Cynllwyd, Annibynwyr y Bala. Mae Carwyn hefyd yn Gydlynnydd Hyrwyddo Gweinidogaethau Undeb yr Annibynwyr Cymraeg .

Yn y gorffennol trefnwyd **cinio'r Sul** adeg Penblwydd y Capel . Rhoddwyd heibio'r syniad yng nghyfnod y Pandemig . Beth ydi'r teimlad erbyn hyn ? Os dymunwch i ni drefnu cinio'r Sul a fyddwch mor garedig a rhoi gwybod i Mererid cyn nos Sul y Pasg .

Ar benblwydd yr Achos, hefyd, gwneir casgliad arbennig at **Y GWELLIANNAU**. Mae Casgliad **Y GWELLIANNAU a'r DIOLCHGARWCH** yn ddau gasgliad arbennig a wneir yn ystod y flwyddyn. Nid oes angen ein hatgoffa fod costau cynnal pob dim yn cynyddu ac nid yw'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn hawdd. Diolch am y gofal ddangoswyd gan nifer o'r aelodau i sicrhau fod eu cyfraniadau yn cyrraedd ein trysorydd. Gwerthfawrogwn yn ddiffuant yr ymdrech a ddangoswyd gennych .Dosbarthir amlenni eleni ar gyfer Casgliad y Gwelliannau. Croesawir yn fawr y newid patrwm o gyfrannu sy'n digwydd yn yr eglwys o gyfrannu drwy drosgwyddiad banc. Mae cyfrannu yn uniongyrchol i'r banc yn arbed costau bancio, gan fod yn rhaid talu ffi erbyn hyn i dalu sieciau ac arian parod i fewn i'r cyfri. Nid oes ffi am dderbyn taliadau'n uniongyrchol. Ond sylweddolwn nad yw hyn yn ymarferol i bawb ac felly croeso i chi anfon eich cyfraniad yn yr amlen ar gyfer Casgliad y Gwelliannau,

*Os ydych am gyfrannu at y capel, gellir gwneud hynny drwy drosglwyddiad banc gan ddefnyddio'r manylion isod: **Côd:40-16-02 Rhif y cyfri:70724556**. Enw'r Cyfri: Salem Congregational Chapel . Cofiwch **nodi eich enw a rhif aelodaeth fel cyfeirnod os gwelwch yn dda**. **Nodwch hefyd : CASGLIAD GWELLIANNAU neu OFFRWM WYTHNOSOL**. Gellir cyfrannu hefyd drwy anfon siec i'r trysorydd: Mr Alun Jones, Gwyddfán, 22 Llys Meirion, Caernarfon LL55 1LE . Gwnwch siec yn daladwy i: **CAPEL SALEM CAERNARFON** . 5

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL 14-21 MAI.2023



Ester Saizi yn gweddio yn yr eglwys yn ymyl ei chartref yn Malawi .

Pob blwyddyn yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol mae pobl y DG yn camu allan mewn cariad gyda'n cymdogion byd-eang. Dathliad ein bod yn benderfynol i newid y byd, drwy ein rhoddion, ein gweddiau a'n

gweithredoedd.

Eleni, yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol (14-20 Mai) byddwn yn sefyll gyda Esther a Jen a'u teuluoedd yn Malawi. Merched penderfynol iawn sydd am i'w plant wireddu eu breuddwydion. Merched cryf a gobeithiol sy'n barod i weithio dros newid mawr. Gall eich rhoddion yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni sicrhau dyfodol hapusach a saffach i deuluoedd a'u plant dros y byd.

Rydym wedi ein huno mewn gobaith

Gyda'n gilydd, gobeithiwn y bydd pob teulu yn cael y fraint o fyw bywyd gyda'g urddas yn rhydd o dlodi.

Pob rhodd. Pob gweithred. Pob gweddi. Gall pob un ohonom helpu i wireddu breuddwydion.. (Gair gan Llinos Roberts, trefnydd CC yn y Gogledd)

Ewch i mewn i'r byd yn cydweithio dros newid fel y gall pawb ffynnu a rhannu bywyd yn ei gyflawnder. Ac yn y cyfan a wnawn gadewch inni ddangos cariad Iesu. Gadewch inni drin pawb gydag urddas. Fe ddangoswn gariad Iesu. Gadewch inni sefyll dros gydraddoldeb. Fe ddangoswn gariad Iesu. Gadewch inni ymladd dros gyfiawnder Fe ddangoswn gariad Iesu. Bydded i Dduw gobaith eich llenwi gyda llawenydd a heddwch wrth gredu, fel y byddwch yn gorlifo gyda gobaith trwy rym yr Ysbryd Glân. Amen. (Un o weddiau CC eleni)



GWEINYDDU A DATBLYGU BYWYD EGLWYS.

Dechrau Mis Rhagfyr 2019 penderfynwyd mewn cyfarfod Eglwys ar newid patrwm Gweinyddiad Salem o 2020 ymlaen. Mae'n anodd credu fod dros dair mlynedd wedi pasio ers hynny. Yn anffodus, daeth y Pandemig ddechrau 2020 i amharu ar gychwyn y drefn newydd, ac felly dim ond yn ystod y misoedd diwethaf, yr ydym wedi gallu meddwl am ail afael mewn gweithdredau y cynllun newydd. O ganlyniad i'r newid, daeth y grwpiau a sefydlwyd yn 2013 i ben, ag eithro grwp yr adeiladau, gyda'r grwp cyllid yn ymuno a'r Pwyllgor Gwaith. Er mwyn cynyddu aelodaeth y P.G penderfynnwyd ymestyn yr aelodaeth i gynnwys: 1) Arolygwr ac is arolygwr yr Ysgol Sul. 2) Gwahodd dau i gynrychioli rhieni'r plant/ieuenctid. 3) Gwahodd 4 o gynulleidfa'r eglwys. Rhoddwyd sylw i'r 4 maes gweithredu gwahanol: Addoli a Dysgu, Gofalu, Gweddio a Chenhadu Yng nghyfarfod o'r P Gwaith a gyfarfu bore Sul 10 Chwefror eleni tanlinellwyd gwahodd yr aelodau sydd a chalon i weithio

Yn ddiweddar rhoddwyd llythyr i aelodau Salem gyda'r pennawd:
'MAE CAPEL SALEM ANGEN CYNORTHWYWYR . FEDRWCH CHI ROI EICH GWASANAETH ?

Yn y llythyr rhestrwyd 12 gweithgarwch i ymateb iddynt .

Rhai ohonynt yw

- Gofalu/Bugeilio aelodau sy'n byw yn agos i chi
- Cymeryd rhan yn oedfa'r Sul.
- Helpu gyda'r Ysgol Sul a'r ifanc
- Ochor dechnegol i weithgareddau'r eglwys
- Gweddio dros fywyd yr eglwys - cylch gweddio
- Cynorthwo gyda Llinyn Arian, cylchgrawn y capel
- Llywyddu oedfaon y Sul
- Nifer o weithgareddau eraill

Gweddiwn weddi Ignatius o Loyola-Ymgyflwyno i Dduw

Dysg ni, Arglwydd ,

I'th wasanaethu , fel yr haeddi:

I roi heb gyfrir'r gost ;

I frwydro heb ystyried y clwyfau;

I weithio heb geisio gorffwys;

I lafurio heb ddisgwyl unrhyw wobr

Ond gwybod ein bod yn gwneud dy ewyllys di .

Taro Fewn

Cafwyd cyfarfod arbennig i ddatlu Gŵyl Dewi yn Taro Fewn. Daeth rhai o ddisgyblion cerdd a drama Bl 8 a 9 Ysgol Syr Hugh Owen i ddiddanu – roeddent yn wych! Yna cafwyd cinio o gawl cenin a tharten afal. Cofiwch fod croeso i unrhyw un ymuno efo Taro Fewn ar unrhyw adeg! Yr oll sydd angen ei wneud ydy dod i'r festri ar Fore Mawrth am 10:30.



HAFAN (Prosiect Cyngor Eglwys Caernarfon)

Mae Capel y Maes ar agor bob dydd Mawrth 12- 3 o'r gloch . Me cyfle i unrhyw in alw mewn am sgwrs, cwmni, tawelwch, goleuo cannwyll neu banded .

'Bydd yn dawel yn dy Dduw, ymlonydda ynddo ef, ac yn sw'n a therfysg byd fe gei ynddo noddfa gref; Duw yw fy nghraig a'm nerth a'm cymorth rhag pob braw, ynddo y mae lloches im pa beth bynnag ddaw; 146 C.FFydd

CLWB IEUENCTID BL 7-9 oed.

Bu'r Pandemig yn gyfrifol i rwystro nifer o weithgareddau'r eglwys .Er na lwyddwyd yn ddiweddar gynnal Clwb Ieuenctid penderfynnwyd wedi'r pandemig roi cynnig unwaith eto i gynnal Clwb ar y cyd gyda Seilo ar nos Sul bob pythefnos. Nid oes rhaid perthyn i Salem na Seilo i fynychu. Croeso cynnes i unrhyw un .Estynnwch wahoddiad.



CYSYLLTU ZOOM : 89967405728 Cyfrinair 1588

SAFWE CAPEL SALEM : www.capelsalemcaernarfon.com